# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2019

Amser: 08.50 - 10.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5477

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Janet Finch-Saunders AC (Cadeirydd)<br>Michelle Brown AC<br>Mike Hedges AC (yn lle Jack Sargeant AC)<br>Leanne Wood AC |
| Tystion: | Julie James AC, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol<br>Neil Hemington, Llywodraeth Cymru<br>Stephen Phipps, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Ross Davies (Dirprwy Glerc)<br>Elfyn Henderson<br>Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil McEvoy a Jack Sargeant. Roedd Mike Hedges yn bresennol yn lle Jack Sargeant.

Croesawodd y Cadeirydd Michelle Brown i'w chyfarfod cyntaf fel aelod o'r Pwyllgor Deisebau.

## 2 Sesiwn dystiolaeth: Cynllunio

### 2.1 P-05-786 Arbedwch ein cefn gwlad - dylid adolygu TAN 1

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Neil Hemington a Stephen Phipps.

Cytunodd y Pwyllgor i grwpio'r ddeiseb hon gyda P-05-881 Trwsio ein system gynllunio i'w thrafod yn y dyfodol, a dychwelyd at y ddwy ddeiseb unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyhoeddiad am y camau nesaf mewn perthynas â'i hadolygiad o ddarparu tai drwy'r system gynllunio.

### 2.2 P-05-881 Trwsio ein system gynllunio

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Neil Hemington a Stephen Phipps.

Cytunodd y Pwyllgor i grwpio'r ddeiseb hon gyda P-05-786 Arbedwch ein cefn gwlad - dylid adolygu TAN 1 i'w thrafod yn y dyfodol, a dychwelyd at y ddwy ddeiseb unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyhoeddiad am y camau nesaf mewn perthynas â'i hadolygiad o ddarparu tai drwy'r system gynllunio.

### 2.3 P-05-843 Mwy o hawliau trydydd parti mewn apeliadau cynllunio

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Neil Hemington a Stephen Phipps.

Cytunodd y Pwyllgor i ymateb yn ysgrifenedig i'r Gweinidog i ofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â nifer o faterion a godwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gan gynnwys y potensial ar gyfer apeliadau lle cymeradwywyd cais cynllunio yn groes i gynnwys cynllun datblygu lleol, sut mae modd herio penderfyniadau cynllunio, a phrosesau ar gyfer monitro perfformiad arolygwyr cynllunio.

### 2.4 P-05-845 Rhowch Derfyn ar Wrthdaro Buddiant yng Nghyfansoddiad Awdurdodau Lleol

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Neil Hemington a Stephen Phipps.

Cytunodd y Pwyllgor i ymateb yn ysgrifenedig i'r deisebydd i ofyn am ei ymateb i'r dystiolaeth a glywyd ac i nodi barn y Pwyllgor nad yw'n ymddangos bod llawer arall y gellid ei gyflawni ar hyn o bryd, oni bai bod gan y deisebydd unrhyw wybodaeth ychwanegol i'w rhannu.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

## 4 Trafod y sesiwn dystiolaeth flaenorol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth y cyflwynodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a chytunwyd ar gamau gweithredu pellach ar bob un o'r deisebau a drafodwyd.

## 5 Deisebau newydd

### 5.1 P-05-884 Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 i gynnwys sefydliadau'r DU sydd â gweithrediadau dramor

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ymateb yn ysgrifenedig i'r Gweinidog Addysg i ofyn:
  - a fyddai'n ystyried 'dynodi' y cyrsiau a ddarperir gan Sefydliad Prifysgol Llundain ym Mharis i alluogi myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru i gael cymorth i fyfyrwyr i astudio yno; ac
  - a oes unrhyw drafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r sefydliad am hyn.

### 5.2 P-05-886 Stopio'r Llwybr Coch (coridor yr A55/A494)

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i wahodd y deisebwyr i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol i ymchwilio yn fanylach i'w pryderon mewn perthynas â'r Llwybr Coch arfaethedig.

### 5.3 P-05-888 Gwneud TGAU Iaith Gymraeg yn orfodol ym mhob ysgol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Gyngor Ysgolion Annibynnol Cymru i ofyn am ei farn am y ddeiseb a gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch addysgu Cymraeg mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru.

## 6 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 6.1 P-05-717 Sefydlu hawliau mynediad statudol cyhoeddus i dir a dŵr mewndirol at ddibenion hamdden a dibenion eraill.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r deisebydd. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oes llawer pellach y gellir ei gyflawni ar hyn o bryd yng ngoleuni natur faith y dadleuon sy'n ymwneud â mynediad at ddŵr mewndirol, a'r dull gweithredu a gynigiwyd gan y Dirprwy Weinidog yn dilyn yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd y llynedd. Felly, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

### 6.2 P-05-775 Cau'r bwlch gweithredu tacsis yn drawsffiniol ac is-gontractio.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a chytunodd i aros nes bod yr adroddiad ynghylch Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus yn cael ei gyhoeddi cyn ystyried a ddylid cymryd camau pellach ar y deisebau.

### 6.3 P-05-835 Caniatáu i Yrwyr Tacsi Symud yn Rhydd i wneud Gwaith Hurio Preifat Unrhyw Le yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a chytunodd i aros nes bod yr adroddiad ynghylch Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus yn cael ei gyhoeddi cyn ystyried a ddylid cymryd camau pellach ar y deisebau.

### 6.4 P-05-827 Y ffyrdd o amgylch Trago Mills/Parc Manwerthu Cyfarthfa

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb, gan ei bod yn anodd gweld sut y gallai'r fynd â'r mater yn ei flaen yn sgil diffyg cyswllt gan y deisebydd.

### 6.5 P-05-847 Creu ffynhonnau dŵr yng nghanol dinasoedd a threfi er mwyn rhoi diwedd ar wastraff plastig.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn perthynas â Refill, a chytunodd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am godi'r mater hwn drwy'r broses ddeisebau.

### 6.6 P-05-855 Adolygiad o ryddhad ardrethi busnesau bach

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb, gan ei bod yn anodd gweld sut y gallai'r fynd â'r ddeiseb yn ei blaen yn sgil diffyg cyswllt gan y deisebwyr.

### 6.7 P-05-802 Amddiffyn Maint Dosbarthiadau mewn Ystafelloedd Dosbarth a Gweithdai Dylunio a Thechnoleg

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach gan y Gweinidog Addysg a'r deisebydd. Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb yn dilyn y camau a gymerwyd i atgoffa penaethiaid, cyrff llywodraethu ac eraill am yr angen i sicrhau bod asesiadau risg dosbarth Dylunio a Thechnoleg yn cael eu diweddaru drwy'r cylchlythyr Dysg. Wrth wneud hynny, roedd y Pwyllgor yn dymuno diolch i'r deisebydd am godi'r mater hwn.

### 6.8 P-05-860 Dylid gwneud gwersi sgiliau bywyd yn orfodol ar y cwricwlwm

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach a chytunodd i wneud Senedd Ieuenctid Cymru yn ymwybodol o'r ddeiseb yng nghyd-destun y gwaith y mae'n ei ddatblygu ynghylch sgiliau bywyd yn y cwricwlwm. Cytunodd y Pwyllgor i aros am ei chanfyddiadau cyn ystyried camau pellach ynghylch y ddeiseb.

### 6.9 P-05-861 Gwneud addysg wleidyddol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol newydd

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach gan y Gweinidog Addysg a chytunodd i aros am farn y deisebydd cyn ystyried camau pellach ynghylch y ddeiseb.